

Y Pwyllgor Deisebau

Petitions Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

Deisebau@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddDeisebau

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

Petitions@senedd.wales

senedd.wales/SeneddPetitions

0300 200 6565

Peter Fox AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

7 Ionawr 2026

Annwyl Peter

Deiseb P-06-1550 Rhowch y cyffur Xonvea ar y rhestr fformiwlâu ar gyfer rheoli cyfog a chwydu yn ystod beichiogrwydd

Cyfarfu'r Pwyllgor Deisebau ar 8 Rhagfyr a bu'n trafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Sarah Spooner.

Gwnaeth yr Aelodau oedi am ennyd i gydnabod y menywod a rannodd eu profiadau ingol o Hyperemesis Gravidarum (HG) a'r effaith ar eu teuluoedd.

Cytunodd yr Aelodau y dylid ysgrifennu at Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru i'w annog yn gryf i ailystyried y penderfyniad cynharach a pharhau i edrych ar y mater hwn, gan dynnu sylw at dystiolaeth y deisebwyr a phwysleisio na ddylai cost fod y prif ffactor sy'n llywio'r penderfyniad yn yr achos hwn.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i rannu'r holl dystiolaeth a ddarparwyd gan y deisebwyr ar ragnodi Xonvea ac iechyd mamau yn ehangach â chi, fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, er gwybodaeth i'ch pwyllgor.

Bydd y ddeiseb yn cael ei chadw ar agor wrth i'r Pwyllgor ddisgwyl ymateb gan Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: P-06-1550 Rhowch y cyffur Xonvea ar y rhestr fformiwlâu ar gyfer rheoli cyfog a chwydu yn ystod beichiogrwydd

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon unrhyw ymateb drwy e-bost at y tîm clericio yn deisebau@senedd.cymru.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir



Carolyn Thomas AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament